SAMANTHA SMITH

Ymateb i lythyr

(gosod esiampl / dyfalbarhad)

Ym 1983, sgwennodd Samantha Smith, geneth ddeg oed, lythyr o'i chartref ym Maine, yr Unol Daleithiau, at arweinydd y Sofiet, Yuni Andropor. Llythyr byr oedd ei llythyr yn gorffen gyda'r geiriau hyn: "Mae Duw wedi creu'r byd i ni i gyd fyw ynddo gyda'n gilydd mewn heddwch ac nid i ryfela a lladd."

Pan dderbyniodd Andropor y llythyr roedd wedi rhyfeddu fod merch ddeg oed wedi sgwennu llythyr a'i neges mor bendant a chlir. Roedd hi'n amlwg yn dyheu am i'r ddwy wlad fawr wneud pob ymdrech i sefydlu heddwch ar y ddaear. Ond roedd hwn yn gyfnod anodd i'r Unol Daleithiau a'r Undeb Sofietaidd gan mai hwn oedd cyfnod y Rhyfel Oer rhwng y ddwy wlad.

Cyhoeddwyd darnau o lythyr Samantha yn y papur newydd Sofietaidd, *Pravda*. Penderfynodd Andropor ei fod am ateb ei llythyr: "Mae'n rhaid i mi ateb llythyr y ferch ifanc hon," meddai wrth ei gabinet un bore. Ond doedd rhai aelodau o'r Cabinet ddim yn cyd-weld â'r arweinydd.

"Fedrwn ni ddim ymateb i lythyr rhyw ferch ifanc, ddi-nod o'r Unol Daleithiau," meddai un aelod. "Ddown ni byth i ben wrth ymateb fel hyn," meddai un arall. "Ac os gwnawn ni ateb y llythyr hwn, mi fydd mwy a mwy o blant yn sgwennu atom ac yn hawlio atebion," meddai aelod arall.

Er i Andropor dderbyn sawl cyngor gan aelodau ei Gabinet, mynd rhagddo a wnaeth gan sgrifennu ateb i lythyr Samantha. Yn wir, sgrifennodd lythyr hirfaith ati, dros dair tudalen. Yn ei lythyr cymharodd hi i Becky, un o'r cymeriadau yng nghyfrol *Uncle Tom's Cabin*. Aeth yn ei flaen i ddweud hefyd fod Rwsia yn gwneud popeth posibl i geisio osgoi rhyfel niwclear a'u bod hefyd wedi rhoi'r gorau i wneud arfau niwclear. Ym mharagraff olaf y llythyr rhoddodd Andropor wahoddiad i Samantha ddod drosodd i'w wlad.

Pan glywodd y wasg fod Andropor wedi ymateb i lythyr merch ifanc o'r Unol Daleithiau roedd y stori ar dudalennau blaen pob papur newydd yn y wlad. Cythruddwyd llawer iawn o bobl amlwg y wlad a bu beirniadu llym ar yr arweinydd. Ond, ymhen rhai wythnosau, cyrhaeddodd Samantha o'i chartref ym Manchester, Maine, i Moscow. Cafodd groeso mawr gan yr arweinydd. Bu ar daith trwy'r wlad a chafodd gyfarfod â phobl ifanc yr un oed â hi.

Pan ddychwelodd i'w chartref cafodd groeso twymgalon a phawb yn ei chofleidio a'i chusanu. Roedd Samantha, trwy ei llythyr, wedi cydio dwy wlad wrth ei gilydd. Cafodd gyfle wedyn i ymweld â Japan a hyd yn oed cymryd rhan mewn sioe yn Hollywood.

Ym mis Awst 1985 cafodd Samantha ei lladd mewn damwain awyren a hithau ddim ond yn 13 oed. Ond roedd enw Samantha Smith yn enwog iawn yn yr Undeb Sofietaidd. Rhoddwyd ei llun ar stamp a hefyd rhoddwyd ei henw ar ddiemwnt, blodyn, mynydd a hyd yn oed ar blaned. Ond roedd yr un mor enwog yn ei gwlad ei hun hefyd. Codwyd cofgolofn iddi sy'n dangos Samantha'n gollwng colomen o'i dwylo gydag arth, symbol yr Undeb Sofietaidd a Maine, yn gafael yn ei choes. Yn ei chartref mae'r dydd Llun cyntaf o Fehefin bob blwyddyn yn "Ddydd Samantha Smith".

Adnod: "Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn." Marc 10:14

Gweddi: O Dduw, pan fydda i'n teimlo'n ddiwerth, ac yn teimlo na fedra i wneud dim, a wnei di f'atgoffa o fywyd Samantha. Amen.

Trafod:

- Pam oedd y rhan fwyaf o bobl yr Undeb Sofietaidd yn gwrthwynebu cysylltu â Samantha?
- Disgrifiwch yr hyn a wnaeth Samantha yn ystod ei bywyd byr.